**Gweithiwr Aml-sgil**
**Gogledd Cymru**
**40 awr yr wythnos**
**Parhaol**
**£32,590 y flwyddyn yn cynyddu i £33,202 ym mis Ionawr.**

Yma yn ClwydAlyn, rydym am recriwtio Gweithiwr Aml-sgil i ymuno â'r tîm Ymatebol a Foids o gwmpas Gogledd Cymru. Byddwch yn gyfrifol am bob gwaith sy'n cwmpasu gofynion aml-sgil a gwaith cysylltiedig mewn eiddo domestig a masnachol. Profiad o waith coed, gwaith plymio, plastro, teilio ac addurno cysylltiedig a sgiliau i safon da, proffesiynol yn ofynnol.

Mae'r swydd yn un barhaol yng Ngogledd Cymru.

- **A ydych chi yn chwilio am gydbwysedd bywyd gwaith rhagorol?**
- **A fyddech yn hoffi 25 diwrnod o wyliau cyflogedig (sy'n cynyddu i 30 diwrnod), gyda chyfle i brynu/gwerthu mwy o wyliau blynyddol?**
- **Derbyn cyfraniadau pensiwn cyflogwr hyd at 8%.**
- **Ymuno â chynllun beicio i'r gwaith.**
- **Derbyn talebau gofal llygaid.**
- **Pecyn mamolaeth rhagorol a llawer o fuddion cwmni eraill.**

## Os felly, fe allem ni fod yn berffaith i'n gilydd….

## Sut yr ydym yn gweithio

Mae ein pobl yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ein hamcan creiddiol yn canolbwyntio ar daclo tlodi ar draws Gogledd Cymru lle'r ydym yn darparu ein cartrefi a'n gwasanaethau.

Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein gwerthoedd o **Ymddiriedaeth, Caredigrwydd a Gobaith**. Rydym yn chwilio am rywun sy'n ymgorffori'r gwerthoedd yma'n llwyr!

## Amdanom Ni

Mae Tai ClwydAlyn yn ddarparwr tai a gwasanaethau cefnogi cysylltiedig cyfeillgar i deuluoedd sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cael ei barchu ar draws Gogledd Cymru lle mae pobl yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym yn sefydliad gweithio ystwyth ac yn aelod o'r Grŵp Teuluoedd sy'n Gweithio, gan fyw ac anadlu ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd.

Rydym ar daith gyffrous a fydd yn ein gweld yn gweithredu cynllun busnes newydd yn canolbwyntio ar daclo tlodi a darparu gwasanaethau cartref gofal o safon ragorol ar draws Gogledd Cymru.

## Am bwy yr ydym yn chwilio?

Rydym yn chwilio am rywun a all weithio'n effeithlon ac effeithiol fel rhan o'n Hadran Gynnal a Chadw yn gwneud gwaith yn y maes canlynol: - Rhaglen Ddiweddaru Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi a Gynlluniwyd, Rhaglen Ddiweddaru Gwresogi Trydanol a Gynlluniwyd, Gwaith Trwsio Ymatebol ac Argyfwng, Gwaith Adnewyddu Eiddo Gwag a Gwaith Trwsio Arferol. Hefyd, sicrhau bod gwaith o safon uchel o ran trwsio a chyfnewid yn cael ei gyflawni yn ddieithriad.

Cynnig cefnogaeth sy'n rhoi pwyslais ar y preswylwyr gan ddefnyddio gwerthoedd craidd ClwydAlyn 'Ymddiriedaeth, Gobaith a Charedigrwydd' a chefnogi cyd-weithwyr gyda naill ai gwybodaeth dechnegol, cyfarwyddyd a chefnogaeth gorfforol. Yr holl waith yn cael ei gwblhau i safon ddiogel ac uchel gan gefnogi/mentora/hyfforddi/arwain gweithwyr sydd dan eich goruchwyliaeth a'ch rheolaeth, wrth gyflawni gwaith i safon uchel a lefel ddigonol o ddiogelwch.

Rydym yn chwilio am unigolyn all reoli ei faich gwaith ei hun a baich gwaith eraill, yn ogystal â gallu rhoi blaenoriaeth i waith yn ôl hynny a rhywun all gyflawni'r holl waith i safon ragorol, cydymffurfio â chyfarwyddyd Iechyd a Diogelwch, y rheoliadau adeiladu presennol ac yn bwysicaf oll medru meddwl ar ei draed/tu hwnt i'r terfynau. Bydd gennych brofiad o weithio yn y sector trwsio tai a chynnal a chadw. Bydd gennych hefyd ddealltwriaeth dda o faterion Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â gweithio mewn eiddo domestig sydd â deiliaid.

## Sgiliau a Chymwysterau gofynnol ar gyfer y swydd:

- Bydd gennych drwydded yrru lân lawn.
- City & Guilds neu NVQ mewn o leiaf 1 grefft berthnasol
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Bydd gennych set o sgiliau mewn 4 crefft o leiaf e.e. plastro, gwaith coed, gosod teils, lloriau.
- Dealltwriaeth dda iawn o'r offer sydd i gael eu defnyddio.
- Dealltwriaeth eithriadol o Iechyd a Diogelwch ar y safle
- Bydd gennych sgiliau a gallu TG da. Bydd hyfforddiant yn cael ei roi ar systemau TG penodol y cwmni.
- Y gallu i gwblhau taflenni amser a chofnodi gwybodaeth yn electronig.
- Byddwch yn rhan o rota ar alwad.

**Ar gyfer y rôl hon bydd arnoch angen gwiriad Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y byddwn ni'n talu amdano.**

**I ymgeisio anfonwch fynegiant o ddiddordeb yn nodi pam y byddech yn hoffi ymgeisio, gyda'ch CV os yn bosibl, at peopleteam@clwydalyn.co.uk.**

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella ein harferion recriwtio ac efallai y byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi am adborth a'ch barn am y profiad recriwtio hefo ni, os byddai'n well gennych i ni beidio â chysylltu â chi, amlygwch hyn yn ystod y broses ymgeisio.